

DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976, ADRAN 65

TABL O'R PRISIAU UCHAF Y GALL CERBYD HACNAI EU CODI

	Tariff 1 6am – 10pm	Tariff 2 10pm – 3am	Tariff 3 3am – 6am	Tariff 4
Tâl Cychwynnol	£2.80	£3.00	£3.00	£5.60
Am bob un rhan o ddeg o filltir neu ran o'r pellter hwnnw, ar gyfer milltiroedd ychwanegol (hynny yw ar ôl yr hanner milltir cyntaf)	£0.20	£0.25	£0.30	£0.40
Amser aros (y funud)	£0.20	£0.25	£0.30	£0.40

Gweithredir gordal Tariff 2 ar y mesurydd ar y Sul, ar Wyliau Cyhoeddus a Gwyliau Banc a phob nos ar ôl 10.00 p.m. hyd 3.00 a.m.

Gweithredir gordal Tariff 3 ar y mesurydd rhwng 3.00 a.m. a 6.00 a.m.

Sylwch y bydd yn rhaid i Weithredwyr sy'n dymuno cychwyn gweithredu'r cyfnod prisiau Tariff 2 yn hwyrach na 10.00 p.m., a chychwyn gweithredu Tariff 3 yn hwyrach na 3 a.m., ddangos y wybodaeth hon ar eu tabl prisiau ym mhob cerbyd.

Taliadau ychwanegol (Dewisol)	
Ffi am ddifwyno'r cerbyd.	£60.00
Ffi Archebu (os yw'r daith yn cychwyn mwy na 5 milltir o ganolfan y gweithredwr)	£ 5.00
Cerbydau sy'n cludo 5–8 teithiwr. Am bob teithiwr, os bydd MWY NA PHEDWAR teithiwr	£1.00 yr un

Fodd bynnag, bydd gan Berchnogion Cerbydau Hacnai hawl i godi tâl is na'r taliadau uchaf a fabwysiadwyd ac mae gan berchnogion hawl i gael y taliadau is hynny wedi'u cynnwys yn eu mesuryddion tacsï, ar yr amod:-

- Nad yw'r tâl ar unrhyw adeg yn fwy na'r taliadau uchaf a fabwysiadwyd gan y Cyngor Sir.
- Yn unol ag Amod 6 yr Amodau ar gyfer Trwydded Cerbyd Hacnai, **rhaid i'r tabl o daliadau uchaf a thabl yn dangos yr holl daliadau ychwanegol sydd wedi'u cynnwys ym mesurydd y tacsï gael eu harddangos ym mhob cerbyd trwyddedig fel eu bod yn amlwg i'r holl deithwyr.**
- Rhaid i berchnogion gysylltu â'r Adran pan wneir unrhyw newidiadau i fesurydd tacsï neu'r taliadau sydd wedi'u cynnwys ym mesurydd cerbyd, er mwyn i'r Adran gynnal ail brawf ar y ddyfais a sicrhau bod yr holl daliadau sydd wedi'u cynnwys yn cael eu harddangos.

Gweithredir gordal Tariff 4 ar y mesurydd ar gyfer pob hurio a fydd yn cychwyn Ddydd Nadolig a Dydd Calan.

Dylai unrhyw berchennog sydd am gael rhagor o wybodaeth neu eglurhad ynghylch yr uchod gysylltu â Swyddogion Trwyddedu'r Adran drwy ffonio 01267 234567.